



Gwers 14



Cyfres Stori Duw

Gwlad yr addewid rhan 1 – bron iawn!

Numeri 13 :1-3,18-20,26-32 & 14:1-9,22-24,29-34 • •

Nod:

Gweld bod angen cael ffydd yn Nuw ym mhob sefyllfa a deall bod gan ddiffyg ffydd ac anufudd-dod ganlyniadau.

Adnodau:

Numeri 13 :1-3,18-20,26-32 & 14:1-9,22-24,29-34

Gweithgaredd i agor:

Ysbiwyr

Cyn y wers, cuddiwch wahanol eitemau, ee ffrwythau, fferins, lluniau o goed / cnydau / tir hardd wedi eu printio, o amgylch y dosbarth, coridor y tu allan ayb (yn ddibynnol ar eich adeilad chi). Gwnewch ddwy restr o'r eitemau hyn, yn ogystal â chwestiynau fel; Sawl plentyn sydd yn nosbarth y plant lleiaf heddiw?, pwy sy'n dysgu dosbarth yr oedolion?, beth yw lliw pwrs Mrs? Pa liw tei sydd gan y gweinidog / Mr?

Rhannwch y dosbarth yn ddau dîm a rhoi rhestr yr un iddynt. Esboniwch mai ysbiwyr ydynt ac y maent i ganfod yr eitemau ac ateb y cwestiynau sydd ar eu rhestr hwy, mor gyflym â phosib, heb darfu ar weddill y dosbarthiadau, a heb gael eu gweld. Anfonwch un tîm ar y tro i wneud hyn. Ac yna adolygu pwy fu fwyaf llwyddiannus.

Ceisiwch wneud y gweithgaredd hwn yn syth fel na fydd y dosbarth yn amharu gormod ar weddill y dosbarthiadau ysgol Sul.

Y Cefndir:

holwch beth sydd wedi digwydd yn stori fawr Duw hyd yma. Gadewch iddynt ateb o ddechrau'r cwrs ymlaen, ond y prif straeon yr ydym am eu hatgoffa amdanynt ar ddechrau'r wers hon yw: caethiwed yr Israeliaid yn yr Aifft, Achubiaeth Duw drwy Moses a'r 10 pla, Y gyfraith. Atgoffwch y dosbarth fod Duw wedi addo rhoi gwlad i ddisgynyddion Abraham a heddiw mae nifer fechan o'r Israeliaid yn cael mynd i mewn iddi am y tro cyntaf.

Darllen yr Adnodau:

Rhowch un darn i bob aelod o'r dosbarth ei ddarllen yn eu tro tra mae'r gweddill yn gwrando. Dyma'r darnau;

Numeri 13 : 1-3, 13:18-20,

13:26-32 14:1-9,

14:22-24, 14:29-34.

Os yw'r dosbarth yn un mawr, gallwch dorri rhai o'r darnau mwy yn rhannau byrrach er mwyn i bawb gael darn.

Astudio'r darn:

Atgoffa'r bobl ifanc o'u gwaith ysbio ar ddechrau'r wers, holi a wnaethant sylwi mai am ysbiwyr Israel mae ein rhannau ni o'r Beibl heddiw. Dywedwch wrthynt eich bod chi eisiau iddynt fod yn ysbiwyr unwaith eto, a'r tro hwn eich bod chi eisiau iddynt chwilio yn y Beibl am atebion i'r cwestiynau canlynol. Rhannwch hwy i'w grwpiau ar y dechrau a

rhoi'r cwestiynau canlynol iddynt:

- Pwy mae Duw eisïau i Moses ei anfon i'r wlad y mae wedi ei addo i'r Israeliaid? (13:1-3)
- Pa wybodaeth mae'r ysbiwyr fod i hel? (13:18-20)
- Sawl ysbiwr sy'n rhoi adroddiad gwael am y wlad? (pawb oni bai am Caleb a Josua)
- Beth maen nhw'n ei ddweud? (13:26-32)
- Sawl ysbiwr sy'n rhoi adroddiad da? (2)
- Pwy ydyn nhw? A beth maen nhw'n ei ddweud? (Caleb a Josua, 13:30, 14:5-9)
- Beth yw ymateb yr Israeliaid i'r adroddiadau? (14:1-4)
- Beth yw ymateb Duw? (14:22-24)
- Beth yw'r gosb i bobl Israel am eu diffyg ffydd? (14:29-34)

Mae llawer o waith astudio yn y fan hon, rhowch ganmolïaeth i'r grwpiau am eu gwaith. Gallwch eu gwobrwyo gyda'r eitemau y gwnaethant eu canfod ar ddechrau'r wers (y fferins/ffrwythau ayb)

Gêm:

Rwyf fi'n gweld gyda fy llygad bach i.

Newidiwch y gair 'llygad' am y gair 'ysbïo'. Rhowch gyfle i un neu ddau a wnaeth ymateb a gweithio'n dda yn yr astudio, ddewis rhywbeth y maent yn ei weld o fewn yr ystafell (heb ddweud wrth neb arall!) a dweud 'rwy'n ysbïo gyda fy llygad bach i, rywbeth

sy'n dechrau â' A gadewch i weddill y dosbarth ddyfalu beth mae'r unigolyn wedi ei weld.

Cloi:

Gofynnwch a oes adegau pan mae'r bobl ifanc yn ei gweld hi'n anodd rhoi eu ffydd yn Nuw? Oes yna adegau pan maent yn teimlo'i bod yn haws mynd eu ffordd eu hunain, gan fod dilyn Duw yn edrych yn rhy anodd?

Dyna sut oedd yr Israeliaid yn yr hanes heddiw. Mae'n hawdd i ni weld bai arnynt ond gallwn ni wneud yr un camgymeriad a theimlo fel troi cefn ar Dduw pan mae pethau'n anodd.

Beth oedd yr Israeliaid wedi ei anghofio, a beth ydym ni'n aml yn ei anghofio yw, pwy yw Duw. Duw yw'r un a wnaeth yr holl wyrthïau i achub yr Israeliaid o'r Aiff, ef yw'r un a agorodd y môr coch, ef wnaeth atgyfodi Iesu o'r bedd yn fyw, ac mae ef yr un ddoe, heddiw ac am byth.

Amser Addoli:

Gofynnwch i Dduw am ei gymorth i weld ei fod Ef yn fwy nag unrhyw sefyllfa yr ydym yn ei hwynebu. Gofynnwch am y nerth i'w ddilyn a rhoi ffydd ynddo hyd yn oed pan mae hynny'n anodd. Gweddïwch y byddwn yn gweld, fel Josua a Caleb, fod Duw yn Dduw mawr, pwerus. Gall ein cynnal drwy unrhyw dreialon yn ein bywydau a bydd ei ddilyn ef a bod yn ffyddlon iddo, er yn anodd weithïau, yn well nac unrhyw ffordd arall o fyw. Amen